**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

12 Gorffennaf 2019

Annwyl Rebecca

**Is-ddeddfwriaeth sydd ar ddod**

Er mwyn cynllunio ein gwaith dros y misoedd nesaf, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi syniad i ni, o ran yr is-ddeddfwriaeth a ganlyn:

- offerynnau statudol,
- offerynnau statudol negyddol arfaethedig,
- memoranda cydsynio offerynnau statudol, a
- datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C,

faint ohonynt y gallwn ddisgwyl iddynt ein cyrraedd dros dymor yr hydref, a thua pryd.

Byddem hefyd yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sydd i'w gyflwyno o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y cyfeiriwyd ato mewn llythyrau atom gan Lywodraeth Cymru ar 11 Mawrth a 9 Ebrill 2019.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English